

DAMEG Y DEG GENETH.

Emyn: 228 *'Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria.'*

Darlleniad: Mathew 25:1-13.

A. GWAHANIAETH HANFODOL.

Dyma ddameg gyfarwydd i lawer. Mae'n sôn am ddeg o ferched a gwahoddiad i wledd briodas. Roedd pump o'r merched yn gall oherwydd iddynt ddod ag olew ychwanegol; roedd pump yn ffôl oherwydd iddynt fethu paratoi'n ddigonol am ddyfodiad y priodfab. Pan ddaeth y priodfab cafodd y pump call myned i mewn i'r briodas ond caewyd y drws ar y pump ffôl ac ni aethant i mewn.

Roedd llawer yn gyffredin rhwng y merched, ond yn y modd gwnaethant baratoi roedd gwahaniaeth sylfaenol.

Beth oedd yn gyffredin i'r deg? i) Derbyniodd y deg gwahoddiad i'r wledd briodas. Mae'n siŵr bod llawer wedi dymuno mynd i'r wledd ond heb dderbyn gwahoddiad. ii) Atebodd y deg yn gadarnhaol i'r gwahoddiad; gallent fod wedi gwrthod (fel y gwnaeth llawer mewn dameg arall gan Iesu, Mathew.22). iii) Bwriad y deg oedd i *'gyfarfod â'r priodfab,'* 1. 'Does dim arwydd bod rhai wedi bod yn anfodlon i'w gyfarfod. Roedd gan y deg ryw gyswllt â'r priodfab, hyd yn oed

rhyw serch tuag ato. Ond pan ddaeth y priodfab roedd pum o'r merched heb baratoi'n ddigonol i'w groesawu.

Ceir pobl debyg o fewn yr eglwys heddiw. Maent wedi clywed y gwahoddiad at Iesu Grist ac mae ganddynt ryw adnabyddiaeth hyd yn oed ryw serch tuag at Iesu ond nid ydynt yn barod i'w gyfarfod! Nid oes olew ganddynt. Nid ydynt wedi paratoi yn fewnol i dderbyn Iesu pan fydd yn dychwelyd yr ail waith i'r ddaear. Yng ngeiriau C.H Sprurgeon, *"Mae'n rhaid bod lamp gyda chi, ac mae angen i'r lamp yna gael ei fwydo gan olew nefol; rhaid iddo barhau i oleuo neu fyddwch byth yn barod."* Iesu yw'r lamp/golau ac mae rhaid ei adnabod yn iawn. **A ydych yn barod i gyfarfod â Iesu pe bai'n dychwelyd heddiw?**

B. CYFARFOD Y PRIODFAB.

Yn y dyddiau yn arwain i fyny at y wledd briodas ychydig fuasai wedi sylweddoli bod gwahaniaeth hanfodol rhwng y 10 merch. Amlygwyd y gwahaniaeth pan ddaeth y priodfab. Bydd yr un peth yn digwydd pan fydd yr Iesu yn dychwelyd. Bydd llawer sydd yn credu eu bod yn blant i Dduw yn darganfod nad ydynt yn wir blant iddo.

Sut ydym i wybod pwy sydd yn barod i gyfarfod â'r Iesu? Ond Duw sydd yn wir gwybod ond ceir arwyddion o wir

berthynas ag Ef yn y Beibl. Yn yr hanes am y didoli rhwng y defaid a'r geifr ceir arwydd o'r sawl fydd yn cael eu derbyn gan Dduw. "*Dewch chwi sydd dan fendith fy Nhad, i etifeddu'r deyrnas a baratowyd i chwi,*" 34. **Pwy yw'r sawl sydd dan fendith y Tad?** Y sawl sydd wedi derbyn a chredu yn Iesu ac fe welir arwyddion o'r berthynas yma yn eu hymwneud â phobl yr Arglwydd. "*Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch,*" 40. **A ydym yn bobl i'r Arglwydd?**

C. GWERSI PELLACH.

i) Rhaid Ymateb yn Bersonol: Mae ymateb y pump call i gais y pump ffôl am olew yn ymddangos yn angharedig. Y peth anhunanol buasai i'r pump roi peth o'u holew i'r pump ffôl, er y golygai hynny y buasaent heb ddim. Nid dyma'r wers sy'n cael ei gyfleu yma. Beth sy'n cael ei ddysgu yw nad oes neb yn iawn gyda Christ ar sail ffydd person arall, boed yn dad duwiol, yn briod llawn ffydd neu'n gyfaill ffyddlon. Rhaid i bawb ymarfer ffydd bersonol yng Nghrist (nid ffydd rhywun arall) i fod yn blentyn Duw!

ii) Colli Cyfle: Er bod y pump ffôl wedi mynd i brynu olew roedd yn rhy hwyr. Roedd y priodfab ar gyrraedd a dylent fod wedi prynu olew yn barod. Gwnaethant gollu'r cyfle i

fynd i mewn i'r wledd. Felly hefyd y bydd hi gyda phawb nad sydd wedi paratoi i gyfarfod â Iesu, pan fydd yn dychwelyd eilwaith! Nawr yw'r amser i baratoi. Mae llawer yn rhoi heibio penderfynu yn awr ac am fyw i'r hunan a phleserau'r byd gan gredu y daw cyfle yn y dyfodol. O feddwl felly mae'n bosib colli'r cyfle i adnabod Iesu yn iawn. Heddiw yw dydd iachawdwriaeth!

iii) Ni Wyr Neb yr Awr: Dyma yw rhybudd Iesu ar y diwedd. "*Byddwch wylidwrus gan hynny, oherwydd ni wyddoch na'r dydd na'r awr*" 13. Nid ydym yn gwybod pryd y bydd Iesu'n dychwelyd. **A ydym yn barod?**

Gweddi: O Dduw Dad, trwy'r ddameg yma gan Iesu rydym yn dysgu gwersi pwysig. Rwyf yn Dad sydd wedi paratoi'r gorau, gwledd briodas i'th Fab, ac 'rwyf yn cynnig gwahoddiad i rai fel ni i ddod. Gwyddom mai'r unig ffordd i fod yn barod yw trwy adnabod Iesu Grist yn Arglwydd ac yn Waredwr. Boed i ni oll fod yn barod.

Rydym yn parhau i weddio dros bawb sydd yn cael eu heffeithio gyda'r coronafeirws. Rhai wedi profi salwch ac eraill wedi colli anwyliaid. Rhai yn teimlo'n unig ac eraill yn pryderu am y dyfodol. O Dduw, cynnal a chadw ni oll yn y dyddiau anodd yma. Yn enw Iesu, Amen.

THE PARABLE OF THE TEN VIRGINS.

Hymn: 911 *'Lord, the light of your love is shining.'*

Reading: Matthew 25: 1-13.

Message:

A. AN ESSENTIAL DIFFERENCE.

In this familiar parable we hear of ten virgins who have been invited to a wedding feast. Five of them were wise because they took extra oil for their lamps; the other five were foolish because they did not prepare sufficiently for the coming of the bridegroom. When the bridegroom eventually arrived the five wise virgins entered the wedding feast, but the five foolish were denied entry.

There were many things that were similar to all the women, but in the way they prepared for the coming of the bridegroom there was one essential difference. **What things were similar about the ten virgins?** i) Each of them had received an invitation to the wedding feast. There may have been many who desired to attend yet they had not received an invitation. ii) Every one of the ten had responded favourably to the invitation. They could have rejected the invitation. [See Matthew 22]. iii) All ten of

the women desired 'to meet the bridegroom,'¹. There are no signs that any of them were unwilling to meet with him. This tells us that each of them had a positive connection with the bridegroom, even a fondness towards him. It was only when he arrived the fact that five of them had not prepared sufficiently was exposed.

There are similar people within the church today. They have heard the invitation of Jesus, they have some understanding of him and even an affection towards him, and yet they are not ready to meet with Him! They have no oil. They have not prepared inwardly for the second coming of Jesus. In C.H Spurgeon's words, "*You must have a lamp. That lamp must be fed with heavenly oil, and it must continue to burn brightly, or else you will not be ready.*" Jesus is 'the lamp'. **Are you ready to meet with Jesus?**

B. MEETING THE BRIDEGROOM.

Up to the day of the wedding, very few would have noticed any differences between the ten women. The essential difference was revealed at the arrival of the bridegroom. The same will happen when Jesus will return. Many who believe that they are the children of God will be shown not to be.

How can we meet with Jesus and be a child of God? Only God truly knows, but the Bible offers signs of a true relationship with Him. In the account of the separating of the sheep and the goats (31+), we read of those who will be received by God. *“Come, you who are blessed by my Father, inherit the kingdom prepared for you,”* 34. **Who are blessed by God?** Those who have received and believed in Jesus as Lord and Saviour. This relationship is revealed in a person’s actions towards other people. Jesus declared, *“As you did for one of the least of these my brothers, you did to me,”* 40. **Are we the people of God?**

C. FURTHER LESSONS.

i) **Personal Response:** The response of the five wise women to the request of the five foolish appears uncharitable. The charitable thing to do would have been for the 5 wise to give some of their oil to the 5 foolish, even if this meant that they would eventually have none. But this is not the lesson taught here. What Jesus is telling us is, that no one is right with God, a child of God, on the basis of another person’s faith, whether it be a godly parent, spouse or friend. Every person must respond personally to Jesus in faith, to be a child of God.

ii) **Lost Opportunity:** The 5 foolish women set out to buy oil, but it was already too late. The bridegroom was about to arrive. They lost the opportunity to enter the wedding feast. So will it be with everyone who has not prepared for the second coming of Jesus! Now is the time to prepare. Many try to put aside the decision to follow Jesus, because they want to live as they please now. They say, *“There is always time for Jesus.”* No one can be sure of life tomorrow; today is the day of salvation.

iii) **No One Knows the Hour:** That is why Jesus said, *“Watch therefore, for you know neither the day nor the hour,”* 13. **Are we ready to meet with Jesus?**

Prayer: Heavenly Father, through this parable we learn from Jesus, that you invite people such as us to a great wedding feast and to be with Jesus forever. We know that the only way to be ready for heaven is to know Jesus as our personal Lord and Saviour.

Lord, we continue to pray for all who are suffering as a consequence of this terrible pandemic. Those who have experienced illness or the loss of a loved one, we pray for them. Those who are lonely and worry about the future. We ask that you will comfort and strengthen them. Amen.

